IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# 2022 (LlC-09)

# Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cynllun Peilot Etholiadol) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn, sef Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cynllun Peilot Etholiadol) 2022, yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu cynllun peilot etholiadol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae’r Gorchymyn hwn yn gymwys i ethol cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cynhelir diwrnod cyffredin yr etholiad ar ei gyfer ar 5 Mai 2022. Mae hefyd yn gymwys i ethol cynghorwyr i’r cynghorau cymuned o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y cynhelir diwrnod arferol yr etholiad ar eu cyfer ar 5 Mai 2022.

Yn dilyn cynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Weinidogion Cymru, bydd y cynllun peilot etholiadol hwn yn rhoi cyfle i unigolion sydd â hawl i bleidleisio yn yr etholiadau hynny, mewn wardiau perthnasol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i bleidleisio ymlaen llaw cyn y diwrnod pleidleisio. Bydd pleidleisio ymlaen llaw yn digwydd ddydd Mawrth 3 Mai 2022 a ddydd Mercher 4 Mai 2022.

Y wardiau perthnasol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw:

- Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf,
- Canol Dwyrain Bracla,
- Gorllewin Bracla,
- Canol Gorllewin Bracla,
- Corneli,
- Y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a
- Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre.

Caniateir i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gael ei lleoli ym mhob un o’r wardiau perthnasol hyn. At hynny, caniateir i’r swyddog canlyniadau hefyd ddarparu ar

gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn Ysgol Gyfun Cynffig i'r myfyrwyr hynny sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol honno sy'n gymwys i bleidleisio yn wardiau y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli.

Mae Atodlen 1 yn addasu deddfwriaeth sylfaenol berthnasol, sef Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2), er mwyn rhoi effaith i'r cynigion hyn.

Mae Atodlenni 2 a 3 yn addasu'r Rheolau sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir etholiadau llywodraeth leol er mwyn rhoi effaith i'r cynigion hyn:

- mae Atodlen 2 yn addasu Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/459 (Cy. 374)) sy'n gymwys i ethol cynghorwyr i'r cyngor ar gyfer prif ardal (sef sir neu fwrdeistref sirol);
- mae Atodlen 3 yn addasu Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/460 (Cy. 375)) sy'n gymwys i ethol cynghorwyr i gyngor cymuned o fewn sir neu fwrdeistref sirol.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# 2022 (LlC-09)

# Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cynllun Peilot Etholiadol) 2022

*Gwnaed* *15 March 2022*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn unol ag adran 10(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(**1**) ("Deddf 2000"), wedi cyflwyno cynigion i Weinidogion Cymru ar gyfer cynllun peilot o dan yr adran honno i fod yn gymwys i'r etholiadau llywodraeth leol a gynhelir ar 5 Mai 2022 mewn perthynas ag ethol cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac ethol cynghorwyr i'r cynghorau cymuned sydd o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 10(1), (2)(a), (2)(b) a (3)(a) o Ddeddf 2000(**2**).

Yn unol ag adran 10(1A) o Ddeddf 2000, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â'r cynigion.

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.—**(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cynllun Peilot Etholiadol) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mawrth 2022.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran—

(**1**) 2000 p. 2. Diwygiwyd adran 10 gan adran 158(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 p. 41, a pharagraff 16 o Atodlen 21 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddo.

(a) etholiad cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; a

(b) etholiad cynghorwyr i gynghorau cymuned o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,

y cynhelir diwrnod cyffredin yr etholiad ar eu cyfer ar 5 Mai 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, mewn unrhyw addasiad i ddeddfiad a wneir gan y Gorchymyn hwn, neu mewn unrhyw ddeddfiad arall sy'n gymwys mewn perthynas â'r etholiadau peilot perthnasol—

ystyr "cau'r bleidlais" ("*close of the poll*") yw 10 p.m. ar 5 Mai 2022;

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**);

ystyr "diwrnod pleidleisio ymlaen llaw" ("*advance voting day*") yw—

(a) mewn cysylltiad â phleidleisio ymlaen llaw yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, 3 Mai 2022 ("diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol"), a

(b) mewn cysylltiad â phleidleisio ymlaen llaw yn y gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, 3 a 4 Mai 2022 ("diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol");

ystyr "diwrnod y bleidlais" neu "dyddiad y bleidlais" ("*day of the poll*" neu "*date of the poll*") yw 5 Mai 2022;

ystyr "etholiad peilot perthnasol" ("*relevant pilot election*") yw—

(a) etholiad cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; neu

(b) etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,

y cynhelir diwrnod cyffredin yr etholiad ar eu cyfer ar 5 Mai 2022;

ystyr "gorsaf bleidleisio" ("*polling station*") yw gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais a gorsaf pleidleisio ymlaen llaw, ac eithrio pan wneir darpariaeth benodol mewn perthynas â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw sy'n wahanol i'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais;

ystyr "gorsaf pleidleisio ymlaen llaw" ("*advance voting station*") yw gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol neu orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol;

---

(**1**) 1983 p. 2.

ystyr “gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol” (“*general advance voting station*”) yw gorsaf bleidleisio lle cynhelir pleidleisio ymlaen llaw, ac eithrio gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol;

ystyr “gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol” (“*school advance voting station*”) yw gorsaf bleidleisio yn yr ysgol berthnasol, lle cynhelir pleidleisio ymlaen llaw yn unig ar gyfer myfyrwyr cofrestredig sy’n byw yn y wardiau perthnasol a ganlyn—

(a) Y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu

(b) Corneli.

ystyr “myfyriwr cofrestredig” (“*registered student*”) yw person sydd wedi ei gofrestru ar gofrestr dderbyn yr ysgol berthnasol, a gedwir yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**1**), ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny;

ystyr “papur pleidleisio ymlaen llaw” (“*advance voting ballot paper*”) yw papur pleidleisio a ddyroddir i bleidleisiwr mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw er mwyn pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw;

ystyr “pleidleisio ymlaen llaw” (“*advance voting*”) yw pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw rhwng—

(a) 8:30 a.m. a 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, a

(b) 7 a.m. a 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol;

ystyr “Rheolau Cymunedau” (“*Communities Rules*”) yw Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021(**2**);

ystyr “Rheolau Prif Ardaloedd” (“*Principal Areas Rules*”) yw Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021(**3**);

ystyr “ward berthnasol” (“*relevant ward*”) yw unrhyw un neu ragor o’r wardiau etholiadol a ganlyn ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr—

(a) Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf,

(b) Canol Dwyrain Bracla,

(c) Gorllewin Bracla,

(d) Canol Gorllewin Bracla,

---

(**1**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).
(**2**) O.S. 2021/1460 (Cy. 375).
(**3**) O.S. 2021/1459 (Cy. 374).

(e) Corneli,

(f) Y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu

(g) Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre;

ystyr "ysgol berthnasol" ("*relevant school*") yw Ysgol Gyfun Cynffig (Cyfeirnod Unigryw: 401789), Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP.

### Cynnal etholiadau peilot perthnasol

**3.—**(1) Mewn perthynas ag etholiad peilot perthnasol, mae'r deddfiadau sy'n llywodraethu cynnal yr etholiadau a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn.

(2) Mae'r rheolau a nodir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Rheolau Prif Ardaloedd i fod yn gymwys wrth gynnal etholiad cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y cynhelir diwrnod cyffredin yr etholiad ar ei gyfer ar 5 Mai 2022, ond maent yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a wneir gan Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae'r rheolau a nodir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Rheolau Cymunedau i fod yn gymwys wrth gynnal etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y cynhelir diwrnod cyffredin yr etholiad ar ei gyfer ar 5 Mai 2022, ond maent yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a wneir gan Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(4) Pan fo'r bleidlais i ethol cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei chynnal ynghyd â'r bleidlais i ethol cynghorwyr i gyngor cymuned o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd arfer y swyddogaethau hynny a bennir yn rheoliad 5(2) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004(**1**) (fel y maent yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru), yn ymestyn, lle bo'n briodol, i'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu harfer ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw ac mewn perthynas ag ef yn ogystal ag ar ddiwrnod y bleidlais.

### Pleidleisio ymlaen llaw: diwrnodau, amserau a lle pleidleisio

**4.—**(1) Mae unrhyw berson sy'n byw mewn ward berthnasol y byddai ganddo hawl i bleidleisio mewn etholiad peilot perthnasol ar ddiwrnod y bleidlais, yn cael pleidleisio mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar

---

(**1**) O.S. 2004/294 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 dsc 1 a chan O.S. 2006/3278, O.S. 2012/1917, O.S. 2014/920 ac O.S. 2015/654.

ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yn lle mewn gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys er gwaethaf unrhyw beth mewn unrhyw ddeddfiad.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw ei phennu yn unol â pharagraff (4).

(4) Caiff person sy'n pleidleisio yn unol â pharagraff (1)—

(a) y mae ei enw yn ymddangos ar gofrestr etholiadol ward berthnasol bleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward berthnasol honno y mae wedi ei dyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau, neu

(b) sy'n fyfyriwr cofrestredig yn yr ysgol berthnasol ac y mae ei enw yn ymddangos ar gofrestr etholiadol un o'r wardiau perthnasol a ganlyn:

(i) Y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu

(ii) Corneli,

bleidleisio yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol y mae wedi ei dyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau.

(5) Caiff person sy'n gymwys i bleidleisio mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, o dan baragraff (4)(a), ac yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, o dan baragraff (4)(b), bleidleisio yn y naill orsaf pleidleisio ymlaen llaw neu'r llall, ond ni fydd ond hawl iddo bleidleisio unwaith.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
15 March 2022

# ATODLEN1 Erthygl 3(1)

## Addasiadau i Ddeddfiadau

**Deddf 1983**

**1.** Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn adran 2(1)(**1**) (etholwyr llywodraeth leol), ar ôl "electoral area" mewnosoder ", on an advance voting day or the day of the poll,";

(b) yn adran 49(**2**) (effaith cofrestrau)—

(i) yn lle is-adran (4) rhodder—

"(4) Subject to subsection (4B), any entry in the register of parliamentary or local government electors, if it gives a date as that on which the person named will attain voting age, will for any purpose of this Part relating to the person as elector, be conclusive that until the date given in the entry the person is not of voting age nor entitled to be treated as an elector.",

(ii) ar ôl is-adran (4A) mewnosoder—

"(4B) A person is entitled to be treated as an elector for the purposes of voting at an advance voting station on an advance voting day where the date relating to the person in the register is the 5 May 2022 or any earlier date.";

(c) yn adran 66(**3**) (gofyniad cyfrinachedd), ar ôl is-adran (8) mewnosoder—

"(9) Nothing in this section prevents the returning officer from carrying out an enquiry, either before or after the close of the poll, concerning whether an elector or the elector's proxy has voted, and the manner and location in which they did so.";

(d) yn adran 202 (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â dehongli), yn y man priodol mewnosoder—

""advance voting day" means 3 and 4 May 2022;

---

(**1**) Amnewidiwyd adran 2(1) gan adran 1(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 p. 2. Diwygiwyd adran 2 hefyd gan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwnaed diwygiadau pellach i adran 2 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Gwnaed diwygiadau i adran 49 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) Gwnaed diwygiadau i adran 66 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

"advance voting station" means a polling station where advance voting is held;".

**Deddf 2000**

**2.** Ar ôl adran 10 o Ddeddf 2000 mewnosoder—

**"Duty to co-operate with the Electoral Commission**

**10A.**—(1) The returning officer for a local government election to which an order under section 10 applies must ensure that the Electoral Commission, and any person authorised by the Commission, is afforded access to any ballot paper, document, equipment, computer software, computer hardware, data stored electronically or place that is to be, is being, or has been used for the purpose of the election.

(2) Sub-section (1) will apply only to the extent that the Electoral Commission reasonably requires access to the ballot paper, document, equipment, computer software, computer hardware, data stored electronically or place, for the purpose of enabling the Commission to assess the election in question and prepare its report in accordance with section 10(6).

(3) Sub-section (1) will not require the returning officer to give access, without an order of the court, to any ballot paper, document, equipment, computer software, computer hardware, data stored electronically which, by reason of the requirement in any enactment, is contained within a sealed packet."

## ATODLEN2 Erthygl 3(2)

## Addasiadau i'r Rheolau Prif Ardaloedd

**1.** Mae'r Rheolau Prif Ardaloedd wedi eu haddasu yn unol â pharagraffau 2 i 48.

## RHAN 1

### Addasiadau i Atodlen 1 (Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall)

**2.** Yn rheol 1 (amserlen), yn y tabl ym mharagraff (1), yn lle'r cofnod ar gyfer "Pleidleisio" rhodder—

"

| | |
|---|---|
| Pleidleisio | Rhwng 8:30 a.m. a |

| | |
|---|---|
| | 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol a rhwng 7 a.m. a 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.<br><br>Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad. |

".

**3.** Yn rheol 27 (hysbysiad y bleidlais), yn lle paragraff (1)(a) rhodder—

"(a) y diwrnodau a'r oriau a bennwyd ar gyfer y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais,".

**4.** Yn lle rheol 29 (darparu gorsafoedd pleidleisio), rhodder—

**"Darparu gorsafoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw**

**29.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, a

(b) dyrannu'r etholwyr i'r gorsafoedd pleidleisio.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ddarparu—

(a) gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) yn y wardiau perthnasol, a

(b) gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022).

(4) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(a), caiff y swyddog canlyniadau ddyrannu etholwyr sy'n byw yn y wardiau perthnasol i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.

(5) Rhaid i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol y mae etholwr sy'n byw mewn ward berthnasol wedi ei dyrannu iddi yn unol â pharagraff (4) fod yr un fath â'r orsaf bleidleisio y mae'r etholwr hwnnw wedi ei dyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau o dan reol 29(1)(b) ar gyfer diwrnod y bleidlais.

(6) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(b) ar gyfer etholwr sy'n fyfyriwr cofrestredig sy'n byw yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu Gorneli, caiff y swyddog canlyniadau—

(a) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn unol â pharagraff (4), a

(b) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio a phob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld."

**5.** Yn rheol 31(4) (dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol), ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) dyddiadau ac oriau'r pleidleisio ymlaen llaw a safle gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr etholwr,".

**6.** Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Mewn perthynas â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ym mharagraff (3), ystyr "y gofrestr etholwyr berthnasol"—

(a) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol—

(i) yw'r gofrestr o etholwyr ar gyfer y ward berthnasol neu unrhyw ran ohoni sy'n cynnwys y cofnodion sy'n ymwneud â'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, a

(ii) yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yw'r gofrestr o etholwyr sy'n fyfyrwyr cofrestredig ac a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol;

(b) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, yw cofrestr o etholwyr sy'n fyfyrwyr cofrestredig sy'n byw yn ward berthnasol y Pîl,

Cynffig a Chefn Cribwr a chofrestr o etholwyr ar wahân sy'n fyfyrwyr cofrestredig sy'n byw yn ward berthnasol Corneli.";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "Ym mharagraff (3)" rhodder "Mewn perthynas â gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ym mharagraff (3)";

(c) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(4A) Rhaid i'r copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol, neu'r rhan berthnasol o'r gofrestr etholwyr, a'r rhestr rhifau cyfatebol a ddarperir i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais gymryd i ystyriaeth unrhyw bleidleisiau a fwriwyd mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw."

**7.** Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl "gael eu cyfrif" mewnosoder "ac i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dilysu'n gynnar";

(b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl "cyfrif" mewnosoder "neu'r dilysu cynnar o bapurau pleidleisio ymlaen llaw (pa un bynnag sy'n gymwys)".

**8.** Yn rheol 38 (cadw trefn yn yr orsaf), yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Pan fo person wedi ei symud o orsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw y diwrnod hwnnw nac ar unrhyw ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw dilynol, na mynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(4A) Pan fo person wedi ei symud o'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod hwnnw."

**9.** Yn rheol 39(1) (selio blychau pleidleisio), yn lle "cyn i'r bleidlais ddechrau" rhodder "cyn i'r bleidlais ddechrau ar bob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais".

**10.** Yn lle rheol 42(7) (gweithdrefn pleidleisio), rhodder—

"(7) Os bydd pleidleisiwr—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022),

(b) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022), neu

(c) mewn gorsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i orsaf bleidleisio wrth i'r bleidlais gau ar ddiwrnod y bleidlais,

ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu i'r pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

**11.** Yn rheol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais), yn lle "Rhaid i'r swyddog llywyddu" rhodder "Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu".

**12.** Yn lle rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), rhodder—

**"Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg**

**50.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorrir ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) pan fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan y diwrnod hwnnw, neu

(b) pan na fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan ddiwrnod y bleidlais,

a hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(3) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a

(b) hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(4) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio tan ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall, bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw hwnnw, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau.

(5) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio—

(a) tan ddiwrnod y bleidlais, neu

(b) ar ddiwrnod y bleidlais tan drannoeth,

bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer diwrnod y bleidlais, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn y gorsafoedd pleidleisio y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(6) Mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at gau'r bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais ar y diwrnod y caiff ei ohirio iddo."

**13.** Ar ôl rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), mewnosoder—

**"Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol**

**50A.—**(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(2) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(d) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Ar ddiwedd y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol cyntaf rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon;

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)); ac

(c) unrhyw ddogfennau eraill na chânt eu danfon i'r swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (4),

cyn yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(7) Ar ddiwedd yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y canlynol i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon; a

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd").

(8) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(9) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn.

**Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol**

**50B.**—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(2) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf honno er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod

pob un o’r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda’i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) rhestr rhifau cyfatebol gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, fel y’i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel “y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd”);

(d) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(e) y rhestrau a’r datganiadau a ganlyn (gyda’i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i’r swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(a), (b), (d) neu (e) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(5) Caiff y swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(c)—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno, neu

(b) os yw’r swyddog llywyddu wedi hysbysu’r asiantau pleidleisio ac wedi rhoi cyfle iddynt i fod yn bresennol, yn unrhyw le arall y mae’r swyddog llywyddu yn ystyried ei fod yn briodol,

ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(6) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(7) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(8) Rhaid i'r swyddog llywyddu hefyd ddanfon y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(9) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(10) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn."

**14.** Ar ôl rheol 52 (trefniadau cyfrif y pleidleisiau), mewnosoder—

**"Dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar**

**52A.**—(1) Caiff swyddog canlyniadau agor y blychau pleidleisio sy'n cynnwys papurau

pleidleisio ymlaen llaw ar ôl i’r pleidleisio gau ar y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw olaf ond cyn i’r bleidlais gau, er mwyn dilysu’r papurau pleidleisio hynny yn unig.

(2) Pan na chaiff papurau pleidleisio ymlaen llaw eu dilysu’n gynnar yn unol â’r rheol hon, cânt eu dilysu yn unol â rheol 54.

(3) Bydd unrhyw bleidleisiau a roddir ar bapur pleidleisio ymlaen llaw a ddilysir cyn i’r bleidlais gau yn unol â’r rheol hon yn cael eu cyfrif ar ôl i’r bleidlais gau yn unol â rheolau 54(6) i 59.

(4) Mae gan yr asiantau cyfrif a’r asiantau etholiadol hawl i fod yn bresennol pan agorir blwch pleidleisio sy’n cynnwys papurau pleidleisio ymlaen llaw gan y swyddog canlyniadau cyn i’r bleidlais gau, a rhaid i’r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i’r asiantau cyfrif a’r asiantau etholiadol sy’n nodi’r amser a’r lle y bydd y swyddog canlyniadau yn dilysu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(5) Rhaid i’r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif—

(a) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, tynnu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio, a

(b) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, tynnu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio.

(6) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a dendrwyd.

(7) Rhaid i’r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau etholiadol, ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â’r canlynol—

(a) nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw,

(b) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau yn dilyn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw, ac

(c) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd a farciwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw o’r diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw,

(gan agor ac ailselio'r pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(8) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o'r datganiad i unrhyw asiant etholiadol sy'n gofyn amdano.

(9) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio ymlaen llaw er mwyn eu dilysu, rhaid i'r swyddog canlyniadau gadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebau i lawr a chymryd rhagofalon priodol i atal unrhyw berson rhag gweld y pleidleisiau a wnaed ar y papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(10) Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, rhaid i'r papurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dychwelyd i un blwch pleidleisio (neu i fwy nag un blwch pleidleisio os nad oes lle i'r papurau pleidleisio mewn un blwch pleidleisio) ar gyfer pob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw a rhaid selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un), gan ddefnyddio sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau etholiadol sy'n dymuno gosod eu sêl.

(11) Ar ôl selio'r blychau pleidleisio yn unol â pharagraff (10), rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, nes bod y blychau pleidleisio'n cael eu hailagor yn unol â rheol 54 er mwyn cyfrif y pleidleisiau a roddwyd.

(12) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol wrth i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dilysu wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983 (hysbysiad o ofyniad cyfrinachedd)."

**15.** Yn rheol 54 (y cyfrif: camau)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Nid yw paragraffau (2) i (5) yn gymwys mewn perthynas â phapurau pleidleisio ymlaen llaw sydd wedi eu dilysu'n flaenorol yn unol â rheol 52A.";

(b) o flaen paragraff (7)(a) mewnosoder—

"(za) wedi eu cyflwyno mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn i'r pleidleisio gau ar unrhyw ddiwrnod y mae'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn agored,

(zb) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig, wedi eu cyflwyno yng ngorsaf

pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn i'r pleidleisio gau ar y diwrnod y mae gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yn agored,";

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(8A) Pan fo—

(a) myfyriwr cofrestredig yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) person mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022),

er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post, rhaid caniatáu i'r person gyflwyno'r papur pleidleisio a'r datganiad yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw, a phan fônt wedi eu cyflwyno, maent i'w trin fel pe baent wedi eu dychwelyd yn briodol at ddibenion y rheol hon.";

(d) ar ôl paragraff (10)(a) mewnosoder—

"(aa) yn achos papurau pleidleisio ymlaen llaw a ddilyswyd yn unol â rheol 52A, nes eu bod wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf, a".

**16.** Yn rheol 61 (selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest), yng ngeiriau agoriadol paragraff (3), yn lle "reol 51(3)" rhodder "reolau 50A(3), 50B(3) a 51(3)".

**17.** Yn rheol 62 (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2)(b), yn lle "reol 51(5)" rhodder "reolau 50A(5), 50B(7) a 51(5)";

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle "reol 54(5)" rhodder "reolau 52A(7) (lle bo'n gymwys) a 54(5)".

**18.** Yn rheol 67(2) (diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw), ar ôl "os yw'r pleidleisio wedi dechrau" mewnosoder "naill ai ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw neu ar ddiwrnod y bleidlais".

**19.** Yn Atodiad 3 (rhestr rhifau cyfatebol), yn Rhan 2, yn lle "Dyddiad y bleidlais:" rhodder "Dyddiad y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw/dyddiad y bleidlais:".

**20.** Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post), yn y cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio post, yng nghyfarwyddyd 9—

(a) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(i) ym mharagraff (b), hepgorer "neu";

(ii) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.";

(b) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(i) ym mharagraff (b), hepgorer "neu";

(ii) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.".

**21.** Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle "Diwrnod Pleidleisio:" rhodder—

"Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m."

rhodder "Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i'w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iv) yn lle "Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:" rhodder—

"Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:";

(b) yn nhestun y cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio drwy'r post), ar gefn y cerdyn, yn lle "Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m."—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf

pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.";

(c) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio'n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle "Diwrnod Pleidleisio:" rhodder—

"Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i'w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn

gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iv) yn lle “Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:” rhodder—

“Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:”;

(d) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy drwy’r post (i’w anfon neu i’w ddanfon i ddirprwy sy’n pleidleisio drwy’r post), ar gefn y cerdyn, yn lle “Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.”—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn y ward etholiadol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward etholiadol cyn 10 p.m.”.

**22.** Yn lle Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), rhodder—

“

**Atodiad 8** **Rheol 44(5)**

| **Ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau** |
|---|
| **Gorsaf bleidleisio:** [rhowch enw’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw’r orsaf bleidleisio]<br>**Ward etholiadol:** [rhowch enw’r ward etholiadol y mae’r pleidleisiwr yn pleidleisio mewn perthynas â hi]<br>Rwyf fi [rhowch enw’r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw’r pleidleisiwr sy’n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy’n cael cymorth] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy’n cael ei gynnal nawr yn y ward etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan*—<br><br>Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.<br><br>Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o’r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).<br><br>Llofnod y cydymaith:<br>Dyddiad:<br><br>*Os gofynnir i’r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy’n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach “Rwyf fi [rhowch enw’r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw’r pleidleisiwr sy’n cael cymorth] sy’n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw’r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy’n cael ei gynnal nawr yn y ward etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan—”.<br><br>Rwyf fi, sy’n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw’r orsaf bleidleisio] ar gyfer ward etholiadol [rhowch yr enw] yn [rhowch enw’r sir neu’r fwrdeistref sirol] drwy hyn yn ardystio bod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i’r cydymaith ac wedi ei lofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.<br><br>Llofnod y swyddog llywyddu:<br>Dyddiad:<br>Amser:<br><br>**Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau**<br><br>1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan |

| |
|---|
| analllu i ddarllen, fel nad yw'n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.<br>2. Caniateir i'r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad. |

”.

## RHAN 2

### Addasiadau i Atodlen 2 (Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol)

**23.** Yn rheol 1 (amserlen), yn y tabl ym mharagraff (1), yn lle'r cofnod ar gyfer “Pleidleisio” rhodder—

“

| | |
|---|---|
| Pleidleisio | Rhwng 8:30 a.m. a 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol a rhwng 7 a.m. a 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.<br><br>Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad |

”.

**24.** Yn rheol 27 (hysbysiad y bleidlais), yn lle paragraff (1)(a) rhodder—

“(a) y diwrnodau a'r oriau a bennwyd ar gyfer y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais,”.

**25.** Yn lle rheol 29 (darparu gorsafoedd pleidleisio), rhodder—

**“Darparu gorsafoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw**

**29.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, a

(b) dyrannu'r etholwyr i'r gorsafoedd pleidleisio.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ddarparu—

(a) gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) yn y wardiau perthnasol, a

(b) gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022).

(4) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(a), caiff y swyddog canlyniadau ddyrannu etholwyr sy'n byw yn y wardiau perthnasol i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.

(5) Rhaid i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol y mae etholwr sy'n byw mewn ward berthnasol wedi ei dyrannu iddi yn unol â pharagraff (4) fod yr un fath â'r orsaf bleidleisio y mae'r etholwr hwnnw wedi ei ddyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau o dan reol 29(1)(b) ar gyfer diwrnod y bleidlais.

(6) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(b) ar gyfer etholwr sy'n fyfyriwr cofrestredig sy'n byw yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu Gorneli, caiff y swyddog canlyniadau—

(a) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn unol â pharagraff (4), a

(b) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio a phob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld.

(8) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle y mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol)."

**26.** Yn rheol 31(4) (dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol), ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

“(da) dyddiadau ac oriau’r pleidleisio ymlaen llaw a safle gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr etholwr,”.

**27.** Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) Mewn perthynas â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ym mharagraff (5), ystyr “y gofrestr etholwyr berthnasol” yw’r cofrestrau etholwyr ar gyfer pob ardal etholiadol—

(a) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol—

(i) yw’r gofrestr o etholwyr ar gyfer y ward berthnasol neu unrhyw ran ohoni sy’n cynnwys y cofnodion sy’n ymwneud â’r etholwyr a ddyrannwyd i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, a

(ii) yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, y gofrestr o etholwyr sy’n fyfyrwyr cofrestredig ac a ddyrannwyd i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol;

(b) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, yw cofrestr o etholwyr sy’n fyfyrwyr cofrestredig sy’n byw yn ward berthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr a chofrestr o etholwyr ar wahân sy’n fyfyrwyr cofrestredig sy’n byw yn ward berthnasol Corneli.”;

(b) ym mharagraff (6) yn lle “Ym mharagraff (5)” rhodder “Mewn perthynas â gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ym mharagraff (5)”;

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Rhaid i’r copïau o’r gofrestr etholwyr berthnasol, neu’r rhan berthnasol o’r gofrestr etholwyr, a’r rhestr rhifau cyfatebol a ddarperir i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais gymryd i ystyriaeth unrhyw bleidleisiau a fwriwyd mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw.”

**28.** Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl “gael eu cyfrif” mewnosoder “ac i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dilysu’n gynnar”;

(b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “cyfrif” mewnosoder “neu’r dilysu cynnar o bapurau

pleidleisio ymlaen llaw (pa un bynnag sy'n gymwys)".

**29.** Yn rheol 38 (cadw trefn yn yr orsaf), yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Pan fo person wedi ei symud o orsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw y diwrnod hwnnw nac ar unrhyw ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw dilynol, na mynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(4A) Pan fo person wedi ei symud o'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod hwnnw."

**30.** Yn rheol 39(1) (selio blychau pleidleisio), yn lle "cyn i'r bleidlais ddechrau" rhodder "cyn i'r bleidlais ddechrau ar bob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais".

**31.** Yn lle rheol 42(7) (gweithdrefn pleidleisio), rhodder—

"(7) Os bydd pleidleisiwr—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022), neu

(c) mewn gorsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i orsaf bleidleisio wrth i'r bleidlais gau ar ddiwrnod y bleidlais,

ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu i'r pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

**32.** Yn rheol 49(1) (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais), yn lle "Rhaid i'r swyddog llywyddu" rhodder "Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu".

**33.** Yn lle rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), rhodder—

**"Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg**

**50.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorrir ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf

bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) pan fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan y diwrnod hwnnw, neu

(b) pan na fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan ddiwrnod y bleidlais,

a hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(3) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a

(b) hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(4) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio tan ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall, bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw hwnnw, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau.

(5) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio—

(a) tan ddiwrnod y bleidlais, neu

(b) ar ddiwrnod y bleidlais tan drannoeth,

bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer diwrnod y bleidlais, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn y gorsafoedd pleidleisio y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(6) Mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at gau'r bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais ar y diwrnod y caiff ei ohirio iddo."

**34.** Ar ôl rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), mewnosoder—

**"Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol**

**50A.—**(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(2) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(d) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a

gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Ar ddiwedd y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol cyntaf rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon;

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)); ac

(c) unrhyw ddogfennau eraill na chânt eu danfon i'r swyddog canlyniadau cydlynol yn unol â pharagraff (4),

cyn yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(7) Ar ddiwedd yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y canlynol i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon; a

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd").

(8) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau cydlynol gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(9) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn.

**Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol**

**50B.**—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(2) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf honno er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) rhestr rhifau cyfatebol gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd");

(d) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(e) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr

y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i’r swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(a), (b), (d) neu (e) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(5) Caiff y swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(c)—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno, neu

(b) os yw’r swyddog llywyddu wedi hysbysu’r asiantau pleidleisio ac wedi rhoi cyfle iddynt i fod yn bresennol, yn unrhyw le arall y mae’r swyddog llywyddu yn ystyried ei fod yn briodol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(6) Rhaid i’r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a’r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i’r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(7) I gyd-fynd â’r pecynnau rhaid cael datganiad (“cyfriflen papurau pleidleisio”) a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy’n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i’r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(8) Rhaid i'r swyddog llywyddu hefyd ddanfon y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(9) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau cydlynol gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(10) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn."

**35.** Yn rheol 52(2) (trosolwg o'r rheolau a dehongli), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) rheol 54A (dilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw etc. yn gynnar pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau),".

**36.** Yn rheol 53 (presenoldeb mewn trafodion o dan y Rhan hon)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "reolau 55(2) i (10)" rhodder "reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10), 55(10A)";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "reol 55(2) i (10)" rhodder "reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10) a 55(10A)";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "reolau 55(2) i (10)" rhodder "reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10), 55(10A)";

(d) ym mharagraff (5)(a), yn lle "reol 55(2) i (10)" rhodder "reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10) a 55(10A)".

**37.** Yn rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau), ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Caiff y swyddog canlyniadau ddilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn unol â rheol 54A."

**38.** Ar ôl rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau), mewnosoder—

**"Dilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw etc. yn gynnar pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau**

**54A.**—(1) Caiff swyddog canlyniadau sy'n swyddog canlyniadau cydlynol agor y blychau pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer pob etholiad ar ôl i'r pleidleisio gau ar y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw olaf ond cyn i'r bleidlais gau, er mwyn dilysu'r papurau pleidleisio hynny yn unig.

(2) Pan na chaiff papurau pleidleisio ymlaen llaw eu dilysu'n gynnar yn unol â'r rheol hon, cânt eu dilysu yn unol â rheol 55.

(3) Bydd unrhyw bleidleisiau a roddir ar bapur pleidleisio ymlaen llaw a ddilysir cyn i'r bleidlais gau yn unol â'r rheol hon yn cael eu cyfrif ar ôl i'r bleidlais gau yn unol â rheolau 59 i 61.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb asiantau cyfrif y brif ardal a'r asiantau cyfrif eraill—

(a) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, tynnu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad perthnasol, a

(b) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, tynnu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad perthnasol.

(5) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Pan ddefnyddiwyd blychau pleidleisio ar wahân ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, nid yw unrhyw bleidlais dros ymgeisydd yn etholiad y brif ardal i'w thrin fel pleidlais annilys am ei bod wedi ei gosod yn y blwch pleidleisio y bwriadwyd ei ddefnyddio mewn etholiad perthnasol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb asiantau etholiadol y brif ardal a'r asiantau etholiadol eraill, ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â'r canlynol—

(a) nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw,

(b) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau yn dilyn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw, ac

(c) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd a farciwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw o’r diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw,

(gan agor ac ailselio’r pecynnau sy’n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd a’r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(8) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio ymlaen llaw er mwyn eu dilysu, rhaid i’r swyddog canlyniadau gadw’r papurau pleidleisio â’u hwynebau i lawr a chymryd rhagofalon priodol i atal unrhyw berson rhag gweld y pleidleisiau a wnaed ar y papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(9) Rhaid i’r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o’r datganiad i unrhyw asiant etholiadol prif ardal, ac i unrhyw asiant etholiadol arall, sy’n gofyn amdano.

(10) Rhaid hefyd i’r swyddog canlyniadau—

(a) cyfrif y papurau pleidleisio post sydd wedi eu dychwelyd yn briodol (ynglŷn â hynny gweler rheol 58), a

(b) cofnodi ar wahân y nifer a gyfrifwyd yn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw yn etholiad y brif ardal ac unrhyw etholiad perthnasol arall.

(11) Yna rhaid i’r swyddog canlyniadau—

(a) gwahanu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw sy’n ymwneud ag etholiad y brif ardal o’r papurau pleidleisio ymlaen llaw sy’n ymwneud ag unrhyw etholiad perthnasol arall,

(b) trefnu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw etholiad perthnasol arall yn becynnau, ac

(c) selio’r pecynnau mewn cynwysyddion ar wahân gan arnodi ar bob un ddisgrifiad o’r ardal y mae’r papurau pleidleisio ymlaen llaw yn ymwneud â hi.

(12) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau ddanfon neu beri danfon i swyddog canlyniadau pob etholiad perthnasol—

(a) cynwysyddion y papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â rhestr o'r cynwysyddion a'u cynnwys,

(b) y cyfriflenni papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â chopi o'r datganiadau ynglŷn â chanlyniad y dilysiad, ac

(c) y pecynnau o bapurau pleidleisio ymlaen llaw heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio ymlaen llaw a ddifethwyd a'r papurau pleidleisio ymlaen llaw a dendrwyd.

(13) Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, rhaid i'r papurau pleidleisio ymlaen llaw mewn cysylltiad ag etholiad y brif ardal, gael eu dychwelyd i un blwch pleidleisio (neu i fwy nag un blwch pleidleisio os nad oes lle i'r papurau pleidleisio mewn un blwch pleidleisio) ar gyfer pob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw a rhaid selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un), gan ddefnyddio sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau etholiadol y brif ardal sy'n dymuno gosod eu sêl.

(14) Ar ôl selio'r blychau pleidleisio yn unol â pharagraff (13), rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio ymlaen llaw a'r dogfennau eraill, nes bod y papurau pleidleisio ymlaen llaw yn cael eu cyfrif yn unol â rheolau 59 i 61."

**39.** Yn rheol 55 (gwahanu papurau pleidleisio etc. pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau)—

(a) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

"(9A) Nid yw paragraffau (1) i (8) yn gymwys mewn perthynas â phapurau pleidleisio ymlaen llaw sydd wedi eu dilysu ac wedi eu gwahanu yn unol â rheol 54A.";

(b) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Rhaid i bapurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer etholiad prif ardal sydd wedi eu dilysu ac wedi eu gwahanu yn unol â rheol 54A gael eu cymysgu ynghyd â'r holl bapurau pleidleisio eraill a ddefnyddiwyd yn etholiad y brif ardal."

**40.** Yn rheol 58 (darpariaeth bellach ynghylch papurau pleidleisio post)—

(a) ym mharagraff (1), o flaen "55(7)(a)" mewnosoder "54A(10)(a),";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Pan fo—

(a) myfyriwr cofrestredig yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) person mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022),

er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post, rhaid caniatáu i’r person gyflwyno’r papur pleidleisio a’r datganiad yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw, a phan fônt wedi eu cyflwyno, maent i’w trin fel pe baent wedi eu dychwelyd yn briodol at ddibenion y rheol hon.

**41.** Yn rheol 59(1) (y cyfrif: cyffredinol), ar ôl “55(10)” mewnosoder “ac (11)”.

**42.** Yn rheol 65 (selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (3), yn lle “reol 51(3)” rhodder “reolau 50A(3), 50B(3) a 51(3)”;

(b) yng ngeiriau agoriadol paragraff (4), yn lle “reol 51(3)” rhodder “reolau 50A(3), 50B(3) a 51(3)”.

**43.** Yn rheol 66 (danfon dogfennau i’r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2)(b), yn lle “reol 51(5)” rhodder “reolau 50A(5), 50B(7) a 51(5)”;

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle “reol 55(6)” rhodder “reolau 54A(9) (lle bo’n gymwys) a 55(6)”.

**44.** Yn rheol 71(2) (diddymu pleidlais neu roi’r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw), ar ôl “os yw’r pleidleisio wedi dechrau” mewnosoder “naill ai ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw neu ar ddiwrnod y bleidlais”.

**45.** Yn Atodiad 3 (rhestr rhifau cyfatebol), yn Rhan 2, yn lle “Dyddiad y bleidlais:” rhodder “Dyddiad y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw/dyddiad y bleidlais:”.

**46.** Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post)—

(a) yn y Ffurf Datganiad Pleidleisio Post (i’w defnyddio pan gaiff papurau pleidleisio post eu dyroddi a’u derbyn ar y cyd), yng

nghyfarwyddyd 9 o'r cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio post—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer "neu";

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.";

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle "paragraff (c)" rhodder "paragraff (e)";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer "neu";

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf

bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.;

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle “paragraff (c)” rhodder “paragraff (d)”;

(b) yn y Ffurf Datganiad Pleidleisio Post (i’w defnyddio pan gyfunir pleidleisiau ond na chyfunir y broses o ddyroddi a derbyn papurau pleidleisio post), yng nghyfarwyddyd 9 o’r cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio post—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle “paragraff (c)” rhodder “paragraff (e)”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle “paragraff (c)” rhodder “paragraff (d)”.

**47.** Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio (pan benderfynir cyfuno cardiau pleidleisio))—

(a) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol (i’w anfon neu i’w ddanfon i etholwr sy’n pleidleisio’n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle “Diwrnod Pleidleisio:” rhodder—

“Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i’w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iv) yn lle “Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:” rhodder—

“Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:”;

(b) yn nhestun y cerdyn swyddogol pleidleisio drwy’r post (i’w anfon neu i’w ddanfon i etholwr sy’n pleidleisio drwy’r post), ar gefn y cerdyn, yn lle “Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(c) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy (i’w anfon neu i’w ddanfon i ddirprwy sy’n pleidleisio’n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle “Diwrnod Pleidleisio:” rhodder—

“Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i

4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i'w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iv) yn lle "Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:" rhodder—

"Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:";

(d) yn nhestun cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy drwy'r post (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post), ar gefn y cerdyn, yn lle "Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m."—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf

bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”.

**48.** Yn lle Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), rhodder—

“

**Atodiad 8** **Rheol 44(5)**

| **Ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau** |
|---|
| Mae’r ffurflen hon yn dangos y datganiad sydd i’w ddefnyddio mewn etholiad cynghorwyr i sir neu fwrdeistref sirol. Gall y datganiad sydd i’w ddefnyddio ym mhob etholiad perthnasol gael ei gynnwys yn yr un ffurflen. Fel arall, caniateir defnyddio ffurflenni ar wahân ar gyfer pob datganiad.<br><br>**Gorsaf Bleidleisio:** [rhowch enw’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw’r orsaf bleidleisio]<br>**Ward etholiadol:** [rhowch enw’r ward etholiadol y mae’r pleidleisiwr yn pleidleisio mewn perthynas â hi]<br>Rwyf fi [rhowch enw’r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw’r pleidleisiwr sy’n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy’n cael cymorth] ar y gofrestr*, i roi ei bleidlais yn yr etholiad cynghorwyr i [rhowch enw’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol] sy’n cael ei gynnal nawr yn y ward etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan—<br><br>Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.<br><br>Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o’r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).<br><br>Llofnod y cydymaith: |

Dyddiad:
*Os gofynnir i'r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy'n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach "Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth] sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw'r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr"

Rwyf fi, sy'n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw'r orsaf bleidleisio] drwy hyn yn ardystio bod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i'r cydymaith ac wedi ei lofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.

Llofnod y swyddog llywyddu:
Dyddiad:
Amser:

**Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau yn etholiad cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol**

1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan analluedd i ddarllen, fel nad yw'n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.

2. Caniateir i'r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad.

".

## ATODLEN3 Erthygl 3(3)

## Addasiadau i'r Rheolau Cymunedau

**1.** Mae'r Rheolau Cymunedau wedi eu haddasu yn unol â pharagraffau 2 i 48.

## RHAN 1

### Addasiadau i Atodlen 1 (Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer cymuned pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall)

**2.** Yn rheol 1 (amserlen), yn y tabl ym mharagraff (1), yn lle'r cofnod ar gyfer "Pleidleisio" rhodder—

“

| | |
|---|---|
| Pleidleisio | Rhwng 8:30 a.m. a 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol a rhwng 7 a.m. a 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.<br><br>Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad. |

”.

**3.** Yn rheol 27 (hysbysiad y bleidlais), yn lle paragraff (1)(a) rhodder—

“(a) y diwrnodau a’r oriau a bennwyd ar gyfer y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais,”.

**4.** Yn lle rheol 29 (darparu gorsafoedd pleidleisio), rhodder—

**“Darparu gorsafoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw**

**29.**—(1) Rhaid i’r swyddog canlyniadau—

(a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, a

(b) dyrannu’r etholwyr i’r gorsafoedd pleidleisio.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ddarparu—

(a) gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) yn y wardiau perthnasol, a

(b) gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022).

(4) Pan fo’r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(a), caiff y swyddog canlyniadau ddyrannu etholwyr sy’n byw yn y wardiau

perthnasol i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.

(5) Rhaid i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol y mae etholwr sy'n byw mewn ward berthnasol wedi ei dyrannu iddi yn unol â pharagraff (4) fod yr un fath â'r orsaf bleidleisio y mae'r etholwr hwnnw wedi ei ddyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau o dan reol 29(1)(b) ar gyfer diwrnod y bleidlais.

(6) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(b) ar gyfer etholwr sy'n fyfyriwr cofrestredig sy'n byw yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu Gorneli, caiff y swyddog canlyniadau—

(a) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn unol â pharagraff (4), a

(b) dyrannu'r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio a phob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld."

**5.** Yn rheol 31(6) (dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol), ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) dyddiadau ac oriau'r pleidleisio ymlaen llaw a safle gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr etholwr,".

**6.** Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Mewn perthynas â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ym mharagraff (3), ystyr "y gofrestr etholwyr berthnasol"—

(a) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol—

(i) yw'r gofrestr o etholwyr ar gyfer y ward berthnasol neu unrhyw ran ohoni sy'n cynnwys y cofnodion sy'n ymwneud â'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, a

(ii) yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yw'r gofrestr o etholwyr sy'n fyfyrwyr cofrestredig ac a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol;

(b) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, yw cofrestr o

etholwyr sy’n fyfyrwyr cofrestredig sy’n byw yn ward berthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr a chofrestr o etholwyr ar wahân sy’n fyfyrwyr cofrestredig sy’n byw yn ward berthnasol Corneli.”;

(b) ym mharagraff (4), yn lle “Ym mharagraff (3)” rhodder “Mewn perthynas â gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ym mharagraff (3)”;

(c) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Rhaid i’r copïau o’r gofrestr etholwyr berthnasol, neu’r rhan berthnasol o’r gofrestr etholwyr, a’r rhestr rhifau cyfatebol a ddarperir i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais gymryd i ystyriaeth unrhyw bleidleisiau a fwriwyd mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw.”

**7.** Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl “gael eu cyfrif” mewnosoder “ac i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dilysu’n gynnar”;

(b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “cyfrif” mewnosoder “neu’r dilysu cynnar o bapurau pleidleisio ymlaen llaw (pa un bynnag sy’n gymwys)”.

**8.** Yn rheol 38 (cadw trefn yn yr orsaf), yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) Pan fo person wedi ei symud o orsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw y diwrnod hwnnw nac ar unrhyw ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw dilynol, na mynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(4A) Pan fo person wedi ei symud o’r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i’r orsaf bleidleisio ar y diwrnod hwnnw.”

**9.** Yn rheol 39(1) (selio blychau pleidleisio), yn lle “cyn i’r bleidlais ddechrau” rhodder “cyn i’r bleidlais ddechrau ar bob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais”.

**10.** Yn lle rheol 42(7) (gweithdrefn pleidleisio), rhodder—

“(7) Os bydd pleidleisiwr—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022),

(b) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022), neu

(c) mewn gorsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i orsaf bleidleisio wrth i'r bleidlais gau ar ddiwrnod y bleidlais,

ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu i'r pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

**11.** Yn rheol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais), yn lle "Rhaid i'r swyddog llywyddu" rhodder "Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu".

**12.** Yn lle rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), rhodder—

**"Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg**

**50.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorrir ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) pan fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan y diwrnod hwnnw, neu

(b) pan na fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan ddiwrnod y bleidlais,

a hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(3) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a

(b) hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(4) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio tan ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall, bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw hwnnw, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau.

(5) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio—

(a) tan ddiwrnod y bleidlais, neu

(b) ar ddiwrnod y bleidlais tan drannoeth,

bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer diwrnod y bleidlais, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn y gorsafoedd pleidleisio y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(6) Mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at gau'r bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais ar y diwrnod y caiff ei ohirio iddo."

**13.** Ar ôl rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), mewnosoder—

**"Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol**

**50A.—**(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(2) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(d) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Ar ddiwedd y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol cyntaf rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon;

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)); ac

(c) unrhyw ddogfennau eraill na chânt eu danfon i’r swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (4),

cyn yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(7) Ar ddiwedd yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, rhaid i’r swyddog llywyddu ddanfon y canlynol i’r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau—

(a) y copïau a farciwyd o’r cofnodion cofrestru a’r rhestr o dirprwyon; a

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y’i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel “y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd”).

(8) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a’r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i’r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a’r dogfennau eraill.

(9) Yn y rheol hon, ystyr “y copïau a farciwyd o’r cofnodion cofrestru” yw’r copïau o’r cofnodion cofrestru (fel y’u diffinnir gan reol 40(7)), fel y’u marciwyd yn unol â’r rheolau hyn.

**Y weithdrefn wrth gau’r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol**

**50B.**—(1) Mae’r rheol hon yn nodi’r camau y mae rhaid i’r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(2) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i’r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda’r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf honno er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i’r swyddog llywyddu osod

pob un o’r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda’i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) rhestr rhifau cyfatebol gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, fel y’i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel “y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd”);

(d) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(e) y rhestrau a’r datganiadau a ganlyn (gyda’i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i’r swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(a), (b), (d) neu (e) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(5) Caiff y swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy’n ofynnol gan baragraff (3)(c)—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno, neu

(b) os yw’r swyddog llywyddu wedi hysbysu’r asiantau pleidleisio ac wedi rhoi cyfle iddynt i fod yn bresennol, yn unrhyw le arall y mae’r swyddog llywyddu yn ystyried ei fod yn briodol,

ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(6) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(7) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(8) Rhaid i'r swyddog llywyddu hefyd ddanfon y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(9) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(10) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn."

**14.** Ar ôl rheol 52 (trefniadau cyfrif y pleidleisiau), mewnosoder—

**"Dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar**

**52A.**—(1) Caiff swyddog canlyniadau agor y blychau pleidleisio sy'n cynnwys papurau

pleidleisio ymlaen llaw ar ôl i'r pleidleisio gau ar y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw olaf ond cyn i'r bleidlais gau, er mwyn dilysu'r papurau pleidleisio hynny yn unig.

(2) Pan na chaiff papurau pleidleisio ymlaen llaw eu dilysu'n gynnar yn unol â'r rheol hon, cânt eu dilysu yn unol â rheol 54.

(3) Bydd unrhyw bleidleisiau a roddir ar bapur pleidleisio ymlaen llaw a ddilysir cyn i'r bleidlais gau yn unol â'r rheol hon yn cael eu cyfrif ar ôl i'r bleidlais gau yn unol â rheolau 54(7) i 59.

(4) Mae gan yr asiantau cyfrif a'r asiantau etholiadol (os penodwyd rhai) hawl i fod yn bresennol pan agorir blwch pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio ymlaen llaw gan y swyddog canlyniadau cyn i'r bleidlais gau, a rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r asiantau cyfrif a'r asiantau etholiadol sy'n nodi'r amser a'r lle y bydd y swyddog canlyniadau yn dilysu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif—

(a) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, tynnu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio, a

(b) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, tynnu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio.

(6) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a dendrwyd.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau etholiadol (os penodwyd rhai), ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â'r canlynol—

(a) nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw,

(b) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau yn dilyn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw, ac

(c) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd a farciwyd ym mhob gorsaf pleidleisio

ymlaen llaw o’r diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw,

(gan agor ac ailselio’r pecynnau sy’n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd a’r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(8) Rhaid i’r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o’r datganiad i unrhyw asiant etholiadol sy’n gofyn amdano.

(9) Pan nad yw ymgeisydd wedi penodi asiant etholiadol—

(a) rhaid i ddilysiad y gyfriflen papurau pleidleisio gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ymgeisydd, a

(b) rhaid rhoi copi o’r datganiad i unrhyw un neu ragor o asiantau cyfrif yr ymgeisydd sy’n gofyn amdano.

(10) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio ymlaen llaw er mwyn eu dilysu, rhaid i’r swyddog canlyniadau gadw’r papurau pleidleisio â’u hwynebau i lawr a chymryd rhagofalon priodol i atal unrhyw berson rhag gweld y pleidleisiau a wnaed ar y papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(11) Ar ôl cwblhau’r broses ddilysu, rhaid i’r papurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dychwelyd i un blwch pleidleisio (neu i fwy nag un blwch pleidleisio os nad oes lle i’r papurau pleidleisio mewn un blwch pleidleisio) ar gyfer pob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw a rhaid selio pob blwch pleidleisio (gyda’r allwedd ynghlwm os oes un), gan ddefnyddio sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau etholiadol (os penodwyd rhai) sy’n dymuno gosod eu sêl.

(12) Ar ôl selio’r blychau pleidleisio yn unol â pharagraff (11), rhaid i’r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a’r dogfennau eraill, nes bod y blychau pleidleisio’n cael eu hailagor yn unol â rheol 54 er mwyn cyfrif y pleidleisiau a roddwyd.

(13) Rhaid i’r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy’n bresennol wrth i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu dilysu wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983 (hysbysiad o ofyniad cyfrinachedd).”

**15.** Yn rheol 54 (y cyfrif: camau)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) Nid yw paragraffau (2) i (5) yn gymwys mewn perthynas â phapurau pleidleisio

ymlaen llaw sydd wedi eu dilysu'n flaenorol yn unol â rheol 52A.";

(b) o flaen paragraff (8)(a) mewnosoder—

"(za) wedi eu cyflwyno mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn i'r pleidleisio gau ar unrhyw ddiwrnod y mae'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn agored,

(zb) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig, wedi eu cyflwyno yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn i'r pleidleisio gau ar y diwrnod y mae gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yn agored,";

(c) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

"(9A) Pan fo—

(a) myfyriwr cofrestredig yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) person mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022),

er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post, rhaid caniatáu i'r person gyflwyno'r papur pleidleisio a'r datganiad yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw, a phan fônt wedi eu cyflwyno, maent i'w trin fel pe baent wedi eu dychwelyd yn briodol at ddibenion y rheol hon.";

(d) ar ôl paragraff (11)(a) mewnosoder—

"(aa) yn achos papurau pleidleisio ymlaen llaw a ddilyswyd yn unol â rheol 52A, nes eu bod wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf, a".

**16.** Yn rheol 61 (selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest), yng ngeiriau agoriadol paragraff (3), yn lle "reol 51(3)" rhodder "reolau 50A(3), 50B(3) a 51(3)".

**17.** Yn rheol 62 (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2)(b), yn lle "reol 51(5)" rhodder "reolau 50A(5), 50B(7) a 51(5)";

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle “reol 54(5)” rhodder “reolau 52A(7) (lle bo’n gymwys) a 54(5)”.

**18.** Yn rheol 67(2) (diddymu pleidlais neu roi’r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw), ar ôl “os yw’r pleidleisio wedi dechrau” mewnosoder “naill ai ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw neu ar ddiwrnod y bleidlais”.

**19.** Yn Atodiad 3 (rhestr rhifau cyfatebol), yn Rhan 2, yn lle “Dyddiad y bleidlais:” rhodder “Dyddiad y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw/dyddiad y bleidlais:”.

**20.** Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post), yn y cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio post, yng nghyfarwyddyd 9—

(a) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(i) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(ii) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.”;

(a) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(i) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(ii) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.”.

**21.** Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol (i’w anfon neu i’w ddanfon i etholwr sy’n pleidleisio’n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle “Diwrnod Pleidleisio:” rhodder—

“Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i’w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iv) yn lle “Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:” rhodder—

“Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:”;

(b) yn nhestun y cerdyn swyddogol pleidleisio drwy’r post (i’w anfon neu i’w ddanfon i etholwr sy’n pleidleisio drwy’r post), ar gefn y cerdyn, yn lle “Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.”—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m.

(iii) Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.”;

(c) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy (i’w anfon neu i’w ddanfon i ddirprwy sy’n pleidleisio’n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle “Diwrnod Pleidleisio:” rhodder—

“Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw;

Diwrnod Pleidleisio:”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i’w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP

ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iv) yn lle "Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:" rhodder—

"Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:";

(d) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy drwy'r post (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post), ar gefn y cerdyn, yn lle "Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m."—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol

Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal etholiadol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.".

**22.** Yn lle Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), rhodder—

"

**Atodiad 8** **Rheol 44(5)**

| **Ffurf datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau** |
|---|
| **Gorsaf bleidleisio:** [rhowch enw'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw'r orsaf bleidleisio]<br>**Ardal etholiadol:** [rhowch enw'r ardal etholiadol y mae'r pleidleisiwr yn pleidleisio mewn perthynas â hi]<br>Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy'n cael cymorth] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan*—<br><br>Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.<br><br>Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).<br><br>Llofnod y cydymaith:<br>Dyddiad:<br><br>*Os gofynnir i'r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy'n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach "Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth] sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw'r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan—".<br><br>Rwyf fi, sy'n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw'r orsaf bleidleisio] ar gyfer ardal etholiadol |

| |
|---|
| [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned] drwy hyn yn ardystio bod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i'r cydymaith ac wedi ei lofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.<br><br>Llofnod y swyddog llywyddu:<br>Dyddiad:<br>Amser:<br><br>**Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau**<br><br>1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan analluu i ddarllen, fel nad yw'n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.<br>2. Caniateir i'r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad. |

".

## RHAN 1

### Addasiadau i Atodlen 2 (Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer cymuned pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol)

**23.** Yn rheol 1 (amserlen), yn y tabl ym mharagraff (1), yn lle'r cofnod ar gyfer "Pleidleisio" rhodder—

"

| | |
|---|---|
| Pleidleisio | Rhwng 8:30 a.m. a 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol a rhwng 7 a.m. a 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.<br><br>Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad. |

".

**24.** Yn rheol 27 (hysbysiad y bleidlais), yn lle paragraff (1)(a) rhodder—

“(a) y diwrnodau a’r oriau a bennwyd ar gyfer y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais,”.

**25.** Yn lle rheol 29 (darparu gorsafoedd pleidleisio), rhodder—

**“Darparu gorsafoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw**

**29.**—(1) Rhaid i’r swyddog canlyniadau—

(a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, a

(b) dyrannu’r etholwyr i’r gorsafoedd pleidleisio.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ddarparu—

(a) gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) yn y wardiau perthnasol, a

(b) gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022).

(4) Pan fo’r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(a), caiff y swyddog canlyniadau ddyrannu etholwyr sy’n byw yn y wardiau perthnasol i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol.

(5) Rhaid i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol y mae etholwr sy’n byw mewn ward berthnasol wedi ei dyrannu iddi yn unol â pharagraff (4) fod yr un fath â’r orsaf bleidleisio y mae’r etholwr hwnnw wedi ei dyrannu iddi gan y swyddog canlyniadau o dan reol 29(1)(b) ar gyfer diwrnod y bleidlais.

(6) Pan fo’r swyddog canlyniadau yn darparu ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw yn unol â pharagraff (3)(b) ar gyfer etholwr sy’n fyfyriwr cofrestredig sy’n byw yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, neu Gorneli, caiff y swyddog canlyniadau—

(a) dyrannu’r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn unol â pharagraff (4), a

(b) dyrannu’r etholwr hwnnw i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio a phob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld.

(8) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle y mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol)."

**26.** Yn rheol 31(4) (dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol), ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) dyddiadau ac oriau'r pleidleisio ymlaen llaw a safle gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr etholwr,".

**27.** Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Mewn perthynas â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ym mharagraff (5), ystyr "y gofrestr etholwyr berthnasol" yw'r cofrestrau etholwyr ar gyfer pob ardal etholiadol—

(a) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol—

(i) yw'r gofrestr o etholwyr ar gyfer y ward berthnasol neu unrhyw ran ohoni sy'n cynnwys y cofnodion sy'n ymwneud â'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, a

(ii) yn wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, y gofrestr o etholwyr sy'n fyfyrwyr cofrestredig ac a ddyrannwyd i'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol;

(b) mewn cysylltiad â gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, yw cofrestr o etholwyr sy'n fyfyrwyr cofrestredig sy'n byw yn ward berthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr a chofrestr o etholwyr ar wahân sy'n fyfyrwyr cofrestredig sy'n byw yn ward berthnasol Corneli.";

(b) ym mharagraff (6) yn lle "Ym mharagraff (5)" rhodder "Mewn perthynas â gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ym mharagraff (5)";

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Rhaid i’r copïau o’r gofrestr etholwyr berthnasol, neu’r rhan berthnasol o’r gofrestr etholwyr, a’r rhestr rhifau cyfatebol a ddarperir i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais gymryd i ystyriaeth unrhyw bleidleisiau a fwriwyd mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw.”

**28.** Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl “gael eu cyfrif” mewnosoder “ac i bapurau pleidleisio ymlaen llaw gael eu cyfrif yn gynnar”;

(b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “cyfrif” mewnosoder “neu’r cyfrif cynnar o bapurau pleidleisio ymlaen llaw (pa un bynnag sy’n gymwys)”.

**29.** Yn rheol 38 (cadw trefn yn yr orsaf), yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) Pan fo person wedi ei symud o orsaf pleidleisio ymlaen llaw ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i’r orsaf pleidleisio ymlaen llaw y diwrnod hwnnw nac ar unrhyw ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw dilynol, na mynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(4A) Pan fo person wedi ei symud o’r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i’r orsaf bleidleisio ar y diwrnod hwnnw.”

**30.** Yn rheol 39(1) (selio blychau pleidleisio), yn lle “cyn i’r bleidlais ddechrau” rhodder “cyn i’r bleidlais ddechrau ar bob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais”.

**31.** Yn lle rheol 42(7) (gweithdrefn pleidleisio), rhodder—

“(7) Os bydd pleidleisiwr—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022), neu

(c) mewn gorsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i orsaf bleidleisio wrth i’r bleidlais gau ar ddiwrnod y bleidlais,

ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i’r swyddog llywyddu ganiatáu i’r

pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

**32.** Yn rheol 49(1) (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais), yn lle "Rhaid i'r swyddog llywyddu" rhodder "Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw a diwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu".

**33.** Yn lle rheol 50 (gohirio'r bleidlais os ceir terfysg), rhodder—

**"Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg**

**50.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorrir ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) pan fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan y diwrnod hwnnw, neu

(b) pan na fydd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall wedi ei drefnu, ohirio'r trafodion tan ddiwrnod y bleidlais,

a hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(3) Pan dorrir ar draws y trafodion ar ddiwrnod y bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a

(b) hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(4) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio tan ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw arall, bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw hwnnw, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau.

(5) Pan gaiff y pleidleisio ei ohirio—

(a) tan ddiwrnod y bleidlais, neu

(b) ar ddiwrnod y bleidlais tan drannoeth,

bydd yr oriau pleidleisio fel y'u rhagnodwyd ar gyfer diwrnod y bleidlais, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn y gorsafoedd pleidleisio y dyrannwyd etholwyr iddynt gan y swyddog canlyniadau ar gyfer pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(6) Mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at gau'r bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais ar y diwrnod y caiff ei ohirio iddo."

**34.** Ar ôl rheol 50 (gohirio’r bleidlais os ceir terfysg), mewnosoder—

**“Y weithdrefn wrth gau’r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol**

**50A.—**(1) Mae’r rheol hon yn nodi’r camau y mae rhaid i’r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(2) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i’r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda’r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd pob diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, rhaid i’r swyddog llywyddu osod pob un o’r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a’r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda’i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(d) y rhestrau a’r datganiadau a ganlyn (gyda’i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Ar ddiwedd y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol cyntaf rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon;

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)); ac

(c) unrhyw ddogfennau eraill na chânt eu danfon i'r swyddog canlyniadau cydlynol yn unol â pharagraff (4),

cyn yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol.

(7) Ar ddiwedd yr ail ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol, rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y canlynol i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu

danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw—

(a) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon; a

(b) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd").

(8) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau cydlynol gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(9) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn.

**Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol**

**50B.**—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol.

(2) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf honno er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ar ddiwedd diwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

(a) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);

(b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;

(c) rhestr rhifau cyfatebol gorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd");

(d) unrhyw dystysgrifau a ildiwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabliaid neu staff swyddogion canlyniadau);

(e) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—

(i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);

(ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy'n ofynnol gan baragraff (3)(a), (b), (d) neu (e) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(5) Caiff y swyddog llywyddu wneud unrhyw beth sy'n ofynnol gan baragraff (3)(c)—

(a) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno, neu

(b) os yw'r swyddog llywyddu wedi hysbysu'r asiantau pleidleisio ac wedi rhoi cyfle iddynt i fod yn bresennol, yn unrhyw le arall y mae'r swyddog llywyddu yn ystyried ei fod yn briodol, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yno.

(6) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a seliwyd o dan baragraff (2) a'r pecynnau a seliwyd o dan baragraff (3) i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a

gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(7) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

(a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;

(b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;

(ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;

(iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;

(iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(8) Rhaid i'r swyddog llywyddu hefyd ddanfon y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr o ddirprwyon i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(9) Yn ystod unrhyw amser rhwng cael y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill, ac—

(a) dilysu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn gynnar yn unol â rheol 52A, neu

(b) cyfrif y pleidleisiau,

rhaid i'r swyddog canlyniadau cydlynol gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

(10) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn."

**35.** Yn rheol 52(2) (trosolwg o'r rheolau a dehongli), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) rheol 54A (dilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw etc. yn gynnar pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau),".

**36.** Yn rheol 53 (presenoldeb mewn trafodion o dan y Rhan hon)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "reolau 55(2) i (10)" rhodder "reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10), 55(10A)";

(b) ym mharagraff (2), yn lle “reol 55(2) i (10)” rhodder “reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10) a 55(10A)”;

(c) ym mharagraff (3), yn lle “reolau 55(2) i (10)” rhodder “reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10), 55(10A)”;

(d) ym mharagraff (5)(a), yn lle “reol 55(2) i (10)” rhodder “reolau 54A(3) i (13), 55(2) i (10) a 55(10A)”.

**37.** Yn rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw’r swyddog canlyniadau), ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Caiff y swyddog canlyniadau ddilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw yn unol â rheol 54A.”

**38.** Ar ôl rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw’r swyddog canlyniadau), mewnosoder—

**“Dilysu a gwahanu papurau pleidleisio ymlaen llaw etc. yn gynnar pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw’r swyddog canlyniadau**

**54A.**—(1) Caiff swyddog canlyniadau sy’n swyddog canlyniadau cydlynol agor y blychau pleidleisio sy’n cynnwys papurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer pob etholiad ar ôl i’r pleidleisio gau ar y diwrnod pleidleisio ymlaen llaw olaf ond cyn i’r bleidlais gau, er mwyn dilysu’r papurau pleidleisio hynny yn unig.

(2) Pan na chaiff papurau pleidleisio ymlaen llaw eu dilysu’n gynnar yn unol â’r rheol hon, cânt eu dilysu yn unol â rheol 55.

(3) Bydd unrhyw bleidleisiau a roddir ar bapur pleidleisio ymlaen llaw a ddilysir cyn i’r bleidlais gau yn unol â’r rheol hon yn cael eu cyfrif ar ôl i’r bleidlais gau yn unol â rheolau 59 i 61.

(4) Rhaid i’r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif cymunedol a’r asiantau cyfrif eraill—

(a) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, tynnu’r papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad perthnasol, a

(b) agor pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, tynnu’r

papurau pleidleisio ymlaen llaw, eu cyfrif a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad perthnasol.

(5) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Pan ddefnyddiwyd blychau pleidleisio ar wahân ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw, nid yw unrhyw bleidlais dros ymgeisydd yn etholiad y gymuned i'w thrin fel pleidlais annilys am ei bod wedi ei gosod yn y blwch pleidleisio y bwriadwyd ei ddefnyddio mewn etholiad perthnasol.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau etholiadol cymunedol (os penodwyd rhai) a'r asiantau etholiadol eraill, ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â'r canlynol—

(a) nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw,

(b) y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau yn dilyn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw, ac

(c) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd a farciwyd ym mhob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw o'r diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw,

(gan agor ac ailselio'r pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(8) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio ymlaen llaw er mwyn eu dilysu, rhaid i'r swyddog canlyniadau gadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebau i lawr a chymryd rhagofalon priodol i atal unrhyw berson rhag gweld y pleidleisiau a wnaed ar y papurau pleidleisio ymlaen llaw.

(9) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o'r datganiad i unrhyw asiant etholiadol cymunedol (os penodwyd rhai), ac i unrhyw asiant etholiadol arall, sy'n gofyn amdano.

(10) Pan nad yw ymgeisydd yn yr etholiad cymunedol wedi penodi asiant etholiadol—

(a) rhaid i ddilysiad y gyfriflen papurau pleidleisio gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ymgeisydd, a

(b) rhaid rhoi copi o'r datganiad i'r ymgeisydd ar gais.

(11) Rhaid hefyd i'r swyddog canlyniadau—

(a) cyfrif y papurau pleidleisio post sydd wedi eu dychwelyd yn briodol (ynglŷn â hynny gweler rheol 58), a

(b) cofnodi ar wahân y nifer a gyfrifwyd yn y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw yn etholiad y gymuned ac unrhyw etholiad perthnasol arall.

(12) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) gwahanu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud ag etholiad y gymuned o'r papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad perthnasol arall,

(b) trefnu'r papurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw etholiad perthnasol arall yn becynnau, ac

(c) selio'r pecynnau mewn cynwysyddion ar wahân gan arnodi ar bob un ddisgrifiad o'r ardal y mae'r papurau pleidleisio ymlaen llaw yn ymwneud â hi.

(13) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau ddanfon neu beri danfon i swyddog canlyniadau pob etholiad perthnasol—

(a) cynwysyddion y papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â rhestr o'r cynwysyddion a'u cynnwys,

(b) y cyfriflenni papurau pleidleisio ymlaen llaw sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â chopi o'r datganiadau ynglŷn â chanlyniad y dilysiad, ac

(c) y pecynnau o bapurau pleidleisio ymlaen llaw heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio ymlaen llaw a ddifethwyd a'r papurau pleidleisio ymlaen llaw a dendrwyd.

(14) Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, rhaid i'r papurau pleidleisio ymlaen llaw mewn cysylltiad â'r etholiad cymunedol, gael eu dychwelyd i un blwch pleidleisio (neu i fwy nag un blwch pleidleisio os nad oes lle i'r papurau pleidleisio mewn un blwch pleidleisio) ar gyfer pob gorsaf pleidleisio ymlaen llaw a rhaid selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un), gan ddefnyddio sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau etholiadol cymunedol (os penodwyd rhai) sy'n dymuno gosod eu sêl.

(15) Ar ôl selio'r blychau pleidleisio yn unol â pharagraff (14), rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd rhagofalon priodol ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio ymlaen llaw a'r dogfennau eraill, nes bod y papurau pleidleisio ymlaen llaw yn cael eu cyfrif yn unol â rheolau 59 i 61."

**39.** Yn rheol 55 (gwahanu papurau pleidleisio etc. pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau)—

(a) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(10A) Nid yw paragraffau (1) i (9) yn gymwys mewn perthynas â phapurau pleidleisio ymlaen llaw sydd wedi eu dilysu ac wedi eu gwahanu yn unol â rheol 54A.";

(b) ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

"(12) Rhaid i bapurau pleidleisio ymlaen llaw ar gyfer etholiad cymuned sydd wedi eu dilysu ac wedi eu gwahanu yn unol â rheol 54A gael eu cymysgu ynghyd â'r holl bapurau pleidleisio eraill a ddefnyddiwyd yn etholiad y gymuned."

**40.** Yn rheol 58 (darpariaeth bellach ynghylch papurau pleidleisio post)—

(a) ym mharagraff (1), o flaen "55(8)(a)" mewnosoder "54A(11)(a),";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Pan fo—

(a) myfyriwr cofrestredig yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol am 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), neu

(b) person mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol, neu mewn ciw y tu allan i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol am 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022),

er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post, rhaid caniatáu i'r person gyflwyno'r papur pleidleisio a'r datganiad yn yr orsaf pleidleisio ymlaen llaw, a phan fônt wedi eu cyflwyno, maent i'w trin fel pe baent wedi eu dychwelyd yn briodol at ddibenion y rheol hon."

**41.** Yn rheol 59(1) (y cyfrif: cyffredinol), ar ôl "55(11)" mewnosoder "a (12)".

**42.** Yn rheol 65 (selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (3), yn lle "reol 51(3)" rhodder "reolau 50A(4) a 51(3)";

(b) yng ngeiriau agoriadol paragraff (4), yn lle “reol 51(3)” rhodder “reolau 50A(3), 50B(3) a 51(3)”.

**43.** Yn rheol 66 (danfon dogfennau i’r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2)(b), yn lle “reol 51(5)” rhodder “reolau 50A(5), 50B(7) a 51(5)”;

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle “reol 55(6)” rhodder “reolau 54A(9) (lle bo’n gymwys) a 55(6)”.

**44.** Yn rheol 71(2) (diddymu pleidlais neu roi’r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw), ar ôl “os yw’r pleidleisio wedi dechrau” mewnosoder “naill ai ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw neu ar ddiwrnod y bleidlais”.

**45.** Yn Atodiad 3 (rhestr rhifau cyfatebol), yn Rhan 2, yn lle “Dyddiad y bleidlais:” rhodder “Dyddiad y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw/dyddiad y bleidlais:”.

**46.** Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post)—

(a) yn y Ffurf Datganiad Pleidleisio Post (i’w defnyddio pan gaiff papurau pleidleisio post eu dyroddi a’u derbyn ar y cyd), yng nghyfarwyddyd 9 o’r cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio post—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle “paragraff (c)” rhodder “paragraff (e)”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle “paragraff (c)” rhodder “paragraff (d)”;

(b) yn y Ffurf Datganiad Pleidleisio Post (i’w defnyddio pan gyfunir pleidleisiau ond na chyfunir y broses o ddyroddi a derbyn papurau pleidleisio post), yng nghyfarwyddyd 9 o’r cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio post—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer “neu”;

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), gael eu gyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng

ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.;

(d) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(e) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.";

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle "paragraff (c)" rhodder "paragraff (e)";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre—

(aa) ym mharagraff (b), hepgorer "neu";

(bb) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) cael eu cyflwyno ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 neu 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.; neu

(d) cael eu cyflwyno ar 5 Mai 2022 mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.";

(cc) yn y geiriau terfynol, yn lle "paragraff (c)" rhodder "paragraff (d)".

**47.** Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio (pan benderfynir cyfuno cardiau pleidleisio))—

(a) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle "Diwrnod Pleidleisio:" rhodder—

"Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw:

Diwrnod Pleidleisio:";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf

pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i'w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m." rhodder "Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022";

(iv) yn lle "Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:" rhodder—

"Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:";

(b) yn nhestun y cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio drwy'r post), ar gefn y cerdyn, yn lle "Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m."—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

"Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa'r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.";

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(c) yn nhestun y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy (i’w anfon neu i’w ddanfon i ddirprwy sy’n pleidleisio’n bersonol), ar flaen y cerdyn—

(i) yn lle “Diwrnod Pleidleisio:” rhodder—

“Diwrnodau Pleidleisio Ymlaen Llaw;

Diwrnod Pleidleisio:”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 8:30 a.m. i 4:30 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022) yng ngorsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (i’w defnyddio gan fyfyrwyr cofrestredig yn unig – sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny); 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, yn lle “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m.” rhodder “Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 9 p.m. ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022) mewn gorsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol; a 7 a.m. i 10 p.m. ar 5 Mai 2022”;

(iv) yn lle “Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:” rhodder—

“Eich gorsaf pleidleisio ymlaen llaw chi fydd:

Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:”;

(d) yn nhestun cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy drwy’r post (i’w anfon neu i’w ddanfon i ddirprwy sy’n pleidleisio drwy’r post), ar gefn y cerdyn, yn lle “Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”—

(i) ar gyfer wardiau perthnasol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr, a Chorneli, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m. Ar gyfer myfyrwyr cofrestredig yn unig (sef myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr dderbyn Ysgol Gyfun Cynffig, Rhodfa’r Dwyrain, Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6NP ar 14 Ebrill 2022 neu cyn hynny), ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol (3 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw yr ysgol cyn 4:30 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”;

(ii) ar gyfer wardiau perthnasol Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, a Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, rhodder—

“Ar ddiwrnod pleidleisio ymlaen llaw cyffredinol (3 a 4 Mai 2022), gallwch eu danfon i orsaf pleidleisio ymlaen llaw gyffredinol yn yr ardal briodol cyn 9 p.m.

Ar ddiwrnod y bleidlais (5 Mai 2022), gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.”.

**48.** Yn lle Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), rhodder—

“

**Atodiad 8** **Rheol 44(5)**

| **Ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau** |
|---|
| Mae’r ffurflen hon yn dangos y datganiad sydd i’w ddefnyddio mewn etholiad cynghorwyr i gymuned. Caniateir i’r datganiad sydd i’w ddefnyddio ym mhob etholiad perthnasol gael ei gynnwys yn yr un ffurflen. Fel arall, caniateir defnyddio ffurflenni ar wahân ar gyfer pob datganiad. |

**Gorsaf bleidleisio:** [rhowch enw'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw'r orsaf bleidleisio]
**Ardal etholiadol:** [rhowch enw'r ardal etholiadol y mae'r pleidleisiwr yn pleidleisio mewn perthynas â hi]
Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy'n cael cymorth] ar y gofrestr*, i roi ei bleidlais yn yr etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned] sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol uchod, drwy hyn yn datgan—

Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.

Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).

Llofnod y cydymaith:
Dyddiad:
*Os gofynnir i'r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy'n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach "Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth] sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw'r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr"

Rwyf fi, sy'n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw'r orsaf pleidleisio ymlaen llaw/enw'r orsaf bleidleisio] drwy hyn yn ardystio bod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i'r cydymaith ac wedi ei lofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.

Llofnod y swyddog llywyddu:
Dyddiad:
Amser:

**Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau yn etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned**

1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan analluogi i ddarllen, fel nad

yw’n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.

2. Caniateir i’r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad.

”.